**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**

—

**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Ieuan Evans MBE
Cadeirydd y Bwrdd
Undeb Rygbi Cymru

27 Ionawr 2023

Sesiwn casglu gwybodaeth am yr honiadau ynghylch Undeb Rygbi Cymru

Annwyl Ieuan

Rwy'n ysgrifennu atoch mewn perthynas â'r honiadau sydd wedi'u gwneud yn erbyn Undeb Rygbi Cymru yr wythnos hon mewn rhaglen a ddarlledwyd ar BBC Cymru. Mae'r Pwyllgor wedi penderfynu eich gwahodd chi fel Cadeirydd Undeb Rygbi Cymru i sesiwn dystiolaeth gyda'r Pwyllgor rhwng 09.30 a 10.20 ddydd Iau 2 Chwefror 2023 yn y Senedd i gasglu rhagor o wybodaeth am y mater hwn.

Bydd y sesiwn hon yn gyfle i drafod y materion sydd wedi codi yr wythnos hon yn ogystal â thrafod ymateb arfaethedig yr Undeb ar ffurf y tasglu a gyhoeddwyd gennych yn ddiweddar. Bydd y Pwyllgor hefyd yn gwahodd Llywodraeth Cymru i drafod pa gamau y mae'n eu cymryd mewn ymateb.

Mae'r Pwyllgor yn glir nad ymchwiliad i'r honiadau yw hwn. Mae'n gyfle i drafod y materion sydd wedi codi a thrafod camau gweithredu sydd eisoes wedi'u cyhoeddi o ganlyniad i hyn. Bydd y Pwyllgor yn ystyried pa gamau i'w cymryd ynghylch y mater hwn yn dilyn trafodaethau'r wythnos nesaf.

Edrychaf ymlaen at gael eich cadarnhad maes o law.

Yn gywir

Delyth Jewell

Cadeirydd y Pwyllgor

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.